Tymor o bêl-droed

Ein gêm gyntaf o'r tymor oedd yn erbyn Afon Ystwyth. Y sgôr oedd 6-1 i Penrhyn. Yr ail gêm oedd yn erbyn Scorpions A, sef tîm o Blascrug. Y sgôr oedd 9-1, i Penrhyn eto. Padarn Sant oedd yn ein herbyn nesaf a ni enillodd 3-1 unwaith eto. Tîm o'r Ysgol Gymraeg, Y Mellt, oedd yr un nesaf ac enillon ni hon hefyd, 6-1. Rhaid oedd chwarae yn erbyn Afon Ystwyth wedyn oherwydd bod tîm Borth yn methu chwarae. Roedd dau fachgen newydd yn chwarae i ni sef Martin a Richard Davies. Nid oedd Rhys Teifi a Jason Davies yn gallu chwarae felly chwaraeodd Richard yn gôl a'r sgôr oedd 4-2 i ni. Tua wythnos ar ôl hynny chwaraeon ni Scorpions A eto a'r sgôr tro hyn oedd 7-1 i ni. Erbyn hyn roedden ni wedi sgorio llawer o goliau. Gêm yn erbyn Mellt oedd nesaf a'r sgôr yn 5-1. Roeddwn yn gorfod chwarae hon ar gae pêl-droed bechgyn Penweddig a Phenglais. Roedd yn rhaid i ni aros ychydig cyn chwarae ein gêm nesaf yn erbyn Borth. Ni enillodd eto - 2-0. Ar y dydd Mawrth canlynol chwaraeon ni Borth eto a'r sgôr y tro hyn oedd 5-0 i ni. Yn y gêm olaf o'r tymor rhaid i ni chwarae yn erbyn Padarn Sant. Y sgôr oedd 2-1 i ni. Felly roedd hynny'n meddwl bod Penrhyn wedi ennill bob gêm yn y gynghrair.

Rhys Dobson